# Crynodeb Gweithredol: Hunanasesiad o Berfformiad, 2024 i 2025

Ynghyd â'n hadroddiadau diweddaru bob chwe mis ar gyfer 2024 i 2025 a ddefnyddiwyd fel ein hasesiad parhaus drwy gydol y flwyddyn, mae'r ddogfen hon yn llunio ein Hunanasesiad o Berfformiad sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'n cyflwyno crynodeb diwedd blwyddyn hwylus o'n perfformiad o gymharu â'n swyddogaethau allweddol, yn benodol, ein Hamcanion Lles (sydd hefyd yn cael eu galw'n Flaenoriaethau Corfforaethol), y saith maes llywodraethu a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (sy'n cynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol newydd). I adolygu'r dystiolaeth y tu ôl i gasgliadau'r ddogfen hon, trowch at yr Adroddiadau Diweddaru ar Berfformiad sydd ar ein gwefan.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Cynnwys

Manylion cysylltu a mwy o wybodaeth ....................................................................3

Ein Dull Hunanasesu ....................................................................................................4

Ar y cyfan, pa mor dda ydym ni’n gwneud? ................................................................5

Swyddogaethau llywodraethu ac iechyd corfforaethol ..................................................6

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ....................................................................................12

Amcanion Perfformiad – Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027 ......................................17

## Manylion cysylltu a mwy o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth, neu i roi eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni:

**Drwy e-bost:** timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01824 706291

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Saesneg / We welcome telephone calls in English.

**Drwy'r post:**

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad,
Cyngor Sir Ddinbych,
Blwch Post 62,
Rhuthun,
LL15 9AZ

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg.

### I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Dilynwch ni ar Twitter

Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i Borth Sgwrs y Sir

Tanysgrifiwch i Newyddlen Llais y Sir

## Ein Dull Hunanasesu

Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn dod â'n Hadroddiadau Diweddaru ar Berfformiad ynghyd, a gyhoeddwyd ar-lein, gyda dadansoddiad o'r graddau mae ein perfformiad yn creu canlyniadau cadarnhaol a pha mor dda mae ein trefniadau llywodraethu'n cefnogi gwelliant parhaus. Mae'r crynodeb hwn hefyd yn edrych tua'r dyfodol ar gyfleoedd a heriau allweddol.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor nodi camau gwella yn ei broses hunanasesu, a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd arnynt mewn adroddiadau hunanasesu dilynol. Rydym ni wedi gwneud hyn drwy ein Hadroddiadau Diweddaru ar Berfformiad (yn cefnogi'r egwyddor o asesu parhaus), sydd wedi dod o hyd i gamau gwella wrth eu llunio.

# Ar y cyfan, pa mor dda ydym ni'n gwneud?

## Llwyddiannau Allweddol

- **Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**: Cadarnhaodd Asesiad Perfformiad Panel annibynnol fod Sir Ddinbych yn Gyngor hunan-ymwybodol a gaiff ei redeg yn dda, gydag ymrwymiad cryf gan staff a strwythurau llywodraethu effeithiol.
- **Rheolaeth Ariannol**: Fe wnaethom lwyddo i ddarparu cyllideb gytbwys a chynnal cronfeydd wrth gefn darbodus o £5.53 miliwn, er gwaethaf heriau ariannol parhaus.
- **Cynnydd â'n Rhaglen Drawsnewid**: Mae ein Rhaglen Drawsnewid yn dechrau dangos canlyniadau.[1]
- **Cydraddoldeb a Chynhwysiant**: Mae cynnydd wedi bod ar ein hamcanion Cydraddoldeb, gan gynnwys cydnabyddiaeth ar gyfer mentrau cefnogi ffoaduriaid a gwell ymgysylltiad â chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli.
- **Ymgysylltu â Staff**: Roedd ein Harolwg Staff yn dangos lefelau da o ran boddhad a balchder wrth weithio i'r Cyngor, hyd yn oed yng nghanol heriau'r gweithlu.

## Heriau Allweddol

- **Pwysau Ariannol**: Mae rhagolygon ariannol tymor canolig yn dangos pwysau ariannol o rhwng £14 miliwn a £26 miliwn ar gyfer 2026 i 2027.
- **Galw ar y Gwasanaeth**: Mae galw cynyddol ym maes gofal cymdeithasol a thai yn parhau i ymestyn capasiti.
- **Canlyniadau Anghyfartal**: Mae tlodi ac anghydraddoldeb yn parhau, gydag anghyfartaledd o ran canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd mewn tlodi neu sy'n gadael gofal.
- **Nodau Hinsawdd**: Mae'n dal i fod yn heriol cyrraedd ein targedau i fod yn Gyngor ecolegol gadarnhaol a di-garbon net erbyn 2030, sy'n cynyddu'r risg o gostau uchel yn y dyfodol yn sgil gweithredu annigonol rŵan.

---

[1] Er enghraifft, lleihau costau wrth leihau llety argyfwng anaddas i aelwydydd digartref.

- **Canfyddiad y Cyhoedd**: Mae ffydd a boddhad y cyhoedd mewn democratiaeth a gwasanaethau yn lleihau, gan bwysleisio'r angen am well cyfathrebu ac ymgysylltu.[2]

## Swyddogaethau llywodraethu ac iechyd corfforaethol

Mae'r adran hon yn egluro mewn mwy o fanylder sut ydym ni wedi rheoli ein cyfrifoldebau llywodraethu, gan ganolbwyntio ar yr hyn a wnaethpwyd yn dda a lle'r ydym wedi wynebu heriau.

### Mae ein cyfoedion yn dweud ein bod yn Gyngor a gaiff ei redeg yn dda, sy'n arfer ei swyddogaethau'n dda ac sy'n hunan-ymwybodol o'r heriau rydym ni'n eu hwynebu

Mae ein cred ein bod yn Gyngor a gaiff ei redeg yn dda wedi'i ddangos gan yr Asesiad Perfformiad Panel a gynhaliwyd ym mis Medi 2024, y cyntaf i gael ei gynnal yng Nghymru. Trafodir adroddiad y Panel allanol mewn manylder yn ein Hadroddiad Diweddaru ar Berfformiad rhwng Hydref 2024 a Mawrth 2025. Roedd yn dod i'r casgliad bod y Cyngor yn cael ei redeg yn dda yn gyffredinol a'i fod yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol - wrth gydnabod heriau mae wedi'u hwynebu yn ddiweddar (o ran cyflwyno'r model gwastraff ac ailgylchu newydd). Fe nododd yr adroddiad hefyd fod gan y Cyngor broses glir ar waith i reoli adnoddau'n economaidd ac yn effeithlon ac mae wedi delio â degawd o gyni llywodraeth leol tra'n amddiffyn gwasanaethau rheng flaen lle bo'n bosibl. Canfu fod yna berthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng staff ac aelodau etholedig ac roedd yna gydnabyddiaeth ymysg staff o ethos y Cyngor. Dangosodd y staff hefyd ymdeimlad cryf o falchder yn gweithio i'r Cyngor gan ddangos ymrwymiad gwirioneddol i wneud gwahaniaeth i gymunedau a pharodrwydd i gefnogi staff y Cyngor o feysydd gwasanaeth eraill pan fo angen. Fe nododd y panel feysydd o arfer da ac arloesi, yn cynnwys lefel uchel o integreiddio ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg; ymgysylltu da rhwng staff ac aelodau etholedig; a Grwpiau Ardal yr Aelodau lle'r oedd aelodau etholedig a swyddogion yn cyfarfod mewn wardiau dynodedig ar draws y Sir i drafod blaenoriaethau lleol preswylwyr a phroblemau oedd yn eu heffeithio'n lleol. Cafodd argymhellion y Panel ar gyfer meysydd i'r Cyngor eu gwella'n barhaus i gyd eu derbyn a rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith ac mae'n cael ei gyflawni. Mae cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol yn

[2] Mae ein Harolwg Budd-ddeiliaid diweddaraf yn dangos llai o foddhad â'r Cyngor, er gwaethaf asesiadau allanol cadarnhaol. Mae hyn yn alinio â thuedd ehangach yn y DU, fel a adroddwyd gan y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (2024).

sail i bopeth mae'r Cyngor yn ei wneud, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y cynllun gweithredu, ein thema Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad a'r camau gwelliant ar gyfer y flwyddyn.

## Rydym yn parhau i ddarparu cyllideb gytbwys

Yn ogystal â pharhau i ddarparu cyllideb gytbwys, rydym wedi cynnal cronfeydd wrth gefn y Cyngor ar £5,531,000 (mae'r lefel yn cael ei hystyried yn ddarbodus i dalu am bwysau ariannol na ellir eu rhagweld), ac mae 89% o arbedion disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn wedi cael eu cyflawni.

Er bod setliad eleni (2025 i 2026)[3] wedi bod yn fwy ffafriol na'r disgwyl, gan liniaru'r brys sy'n gysylltiedig â gostyngiadau neu doriadau gwasanaeth, mae newidiadau a gostyngiadau gwasanaeth wedi bod yn angenrheidiol a bydd angen archwilio hyn ymhellach i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng cyllido a'r pwysau a ddisgrifir mewn mwy o fanylder isod.[4] Mae hyn wedi golygu gweithio'n agos rhwng swyddogion ac aelodau etholedig i ddatblygu cynigion a gwneud penderfyniadau anodd iawn. Ar gyfer pob penderfyniad, mae swyddogion ac aelodau etholedig yn rhoi ystyriaeth ofalus i effaith camau arfaethedig ar genedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r aelodau etholedig wedi ymateb i'r her ac wedi ystyried camau annymunol ond pragmatig yn aml i sicrhau ein bod yn gallu mantoli'r gyllideb wrth geisio lleihau cymaint ag y gallwn ar yr effeithiau negyddol ar les amgylcheddol a'r gymuned. Mae pob un o'r rhain yn golygu bod angen monitro effaith lles unigol a chronnus yn ofalus er mwyn sicrhau bod modd lleihau effaith wahaniaethol a negyddol. Egwyddor graidd i'n dull o hyd yw cydbwyso'r effaith ar unigolion (h.y. trethdalwyr) yn erbyn diogelu cynifer o wasanaethau craidd y Cyngor y mae nifer o breswylwyr diamddiffyn yn dibynnu arnynt. Mae'r her yn parhau i sicrhau bod rhai ar y meinciau cefn yn parhau i deimlo'n rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ar y gyllideb ac o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol dros y blynyddoedd nesaf, a disgwylir i'r her hon barhau. Er enghraifft, bydd y Cyngor yn dechrau gweithredu arbedion o ran Toiledau Cyhoeddus, gan arwain at gau rhai mewn ambell ward, ac ailwampio mewn rhai eraill.

---

[3] Gosododd y Cyngor gyllideb a Threth y Cyngor 2025 i 2026 ym mis Chwefror 2025 yn seiliedig ar Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol, a arweiniodd at gynnydd o £14.427 miliwn neu 7% mewn arian parod o gymharu â lefel y cyllid a gafwyd ddechrau 2024 i 2025. Mae Setliad Terfynol Llywodraeth Leol ar gyfer 2025 i 2026 bellach wedi cael ei dderbyn ac mae wedi arwain at gynnydd bychan iawn mewn cyllid o £29,659. Mae'r swm wedi'i ychwanegu at y gyllideb wrth gefn o fewn y gyllideb gorfforaethol.
[4] Mae'r adroddiad diweddaru am ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Ebrill, yn nodi bod ein pwysau yn anodd i'w rhagweld, ond eu bod yn amrywio o £14 miliwn i £26 miliwn yn 2026 i 2027, gydag amrediad canolig o £21 miliwn. Rhagwelir amrediadau tebyg ar gyfer 2027 i 2028 a 2028 i 2029.

Wrth edrych ymlaen, bydd y Cyngor yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol wrth bennu cyllidebau yn y tymor canolig, gan fod y cynnydd a ragwelir mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru (rhagdybiaeth weithredol) yn annhebygol iawn o gyd-fynd â'r cynnydd mewn galw am wasanaethau, yn ogystal â chymhlethdod angen, ac effaith barhaus chwyddiant.  Rydym yn cyfeirio at y rhain fel 'pwysau'. Ni ddylid bychanu maint yr her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Trafodir hyn mewn rhagor o fanylder mewn adroddiad diweddaru am ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Ebrill.

## Mae ein rhaglen drawsnewid yn aeddfedu ac rydym yn gweld rhai canlyniadau da eisoes

Mae lefel y newid sydd ei angen i fodloni galw cynyddol ac anghenion mwyfwy cymhleth ar gyfer gofal cymdeithasol yn sylweddol.

- Yn ystod 2024 i 2025, cynyddodd galw am wasanaethau plant a gofal cymdeithasol i oedolion o 14%.[5]
- Gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl a gysylltodd â'r Un Pwynt Mynediad hefyd.[6]
- Mae mwy o ofalwyr sy'n oedolion yn cael asesiad o angen.

Mae rheoli disgwyliadau pobl o ran yr hyn y dylai Cynghorau ei ddarparu, a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithlu sy'n heneiddio ac amgylchedd ariannol anrhagweladwy a heriol yn gyffredin i bob Cyngor. Ar yr un pryd, rydym yn ceisio lliniaru ac addasu i effaith gynyddol yr argyfwng hinsawdd a natur. Mae'n rhaid i ni barhau i ymateb i'r pwysau hyn, gan weithio fel 'Un Cyngor', bod yn agos at ein haelodau etholedig a'n cymunedau ac ymateb iddynt, bod yn glir am ein perfformiad a'r hyn y gallwn ei ddarparu a chefnogi staff. Ffordd arall ydym ni'n ymateb i'r heriau hyn yw trwy ein Rhaglen Drawsnewid. Mae angen i ni weld cynnydd a bod prosiectau trawsnewid yn cael eu darparu'n effeithiol, gan ddysgu gwersi pwysig gan bobl eraill, fel cyflwyno'r prosiect gwastraff. Mae'r llwyddiant rydym ni'n dechrau ei weld yn dilyn trawsnewid ein gwasanaeth digartrefedd er mwyn lleihau llety brys anaddas yn dangos y gall newid gwasanaeth leihau gwariant ac arwain at

---

[5] Yn ystod y flwyddyn ariannol hon yn unig, rydym wedi gweld y galw am wasanaethau plant a gofal cymdeithasol i oedolion yn cynyddu o 14% o ran atgyfeiriadau ac ymholiadau a gofnodwyd ar ein Porth Cefnogi Plant a Theuluoedd (nifer yr atgyfeiriadau ac ymholiadau yn ystod 2023 i 2024 oedd 5,056, gan gynyddu i 5,743 yn ystod 2024 i 2025) ac roedd mwy o ofalwyr sy'n oedolion wedi cael asesiad o angen yn ystod yr un cyfnod (o 370 i 447).
[6] O 4,259 ym mis Mawrth 2024 i 4,773 ym mis Mawrth 2025 (cynnydd o 12%).

ganlyniadau cadarnhaol i bobl yn Sir Ddinbych, ein partneriaid, cymunedau a'r Cyngor.[7] Er ein bod yn parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol gydag aelodau etholedig o ran y gyllideb, mae angen sicrhau mwy o eglurder, tryloywder a pherchnogaeth o'r Rhaglen Drawsnewid, gan adeiladu ar sesiynau briffio cyfathrebu a gynhaliwyd ar ddechrau 2025.[8] Mae angen i'r Cyngor ddal i gyfathrebu'n fewnol ac allanol gyda staff, preswylwyr, aelodau etholedig, a phartneriaid ynglŷn â'i waith Trawsnewid.  Bydd hyn yn darparu cyd-destun ar gyfer datblygu gweledigaeth hirdymor i Sir Ddinbych, a oedd yn argymhelliad o'r Asesiad Perfformiad Panel y soniwyd amdano uchod. Bydd angen i'r Rhaglen Drawsnewid ymateb i'r gwaith hwnnw o greu gweledigaeth o ran cefnogi darparu unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'w gyflawni - ystyried ein diwylliant, ein pobl, prosesau a thechnoleg - ynghyd â Chynlluniau Ariannol Tymor Canolig y dyfodol.

## Nid ydym ar y trywydd iawn i fod yn Gyngor di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030

Mae cyflymder gostyngiadau o ran allyriadau carbon yn dangos bod yr her yn bodoli o hyd i fodloni nod 2030 o fod yn Gyngor di-garbon net sy'n ecolegol gadarnhaol, fel a gefnogwyd yn unfrydol gan aelodau etholedig. Bydd y pwysau ariannol y mae pob awdurdod lleol yn ei wynebu rŵan a dros y blynyddoedd i ddod yn parhau i effeithio ar y cyflymder yna, ond fe fydd yna gostau uwch yn y dyfodol o beidio â chyflawni'r targedau a'r strategaeth.  Mae angen i'r Cyngor asesu'r bwlch rhwng ein perfformiad presennol a tharged 2030. Mae'n rhaid i ni asesu llwybrau hyfyw i sicrhau cyllid ac asesu ein hawydd i uwchgyfeirio camau gweithredu. Bydd Asesiad Risg Hinsawdd Gogledd Cymru yn llywio'r gwaith hwn ac mae'r Cyngor yn ei gefnogi trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'n Rhaglen Drawsnewid a'r graddau y mae'n ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol a gafodd ei ddatgan gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2019.

## Staff yw ein hased pwysicaf

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweld effaith capasiti is ar draws y Cyngor, gyda gweithlu llai. Roedd recriwtio a chadw staff yn dal i fod yn arbennig o heriol yn y gwasanaethau

---

[7] Mae nifer yr aelwydydd a gaiff eu lleoli dros dro mewn gwestai a llety gwely a brecwast bron wedi haneru. Ond dylid nodi, er ein bod wedi gweld gwelliant o ran y ffigurau ar gyfer aelwydydd a gafodd eu hatal rhag bod yn ddigartref, a gafodd eu hachub o ddigartrefedd ac y daethpwyd â'u digartrefedd i ben, mae'r tair elfen hon yn dal i fod yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'.

[8] Adroddir ar hyn mewn rhagor o fanylder yn ein Hadroddiad Diweddaru ar Berfformiad Hydref 2024 i Mawrth 2025.

cymdeithasol, ond mae wedi gwella rhywfaint mewn adrannau eraill. Lle bo’n bosibl, rydym wedi adleoli ein hadnoddau a gweithio’n greadigol i reoli’r heriau hyn. Er enghraifft, mae rhagor o fanylion ar gael yn adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2023 i 2024. Mae ymarfer cynllunio gweithlu ffurfiol wedi dechrau a bydd yn dod i ben ym mis Mai 2025. Mae’r ymarfer yma’n cynnwys gweithio gyda phob gwasanaeth i adnabod anghenion a heriau eu gweithlu dros y tymor byr i ganolig a chyfrannu at Gynllun Gweithlu Corfforaethol ar gyfer y Cyngor cyfan. Yn ogystal, mae ein hymateb i’r Asesiad Perfformiad Panel yn pwysleisio ein hymrwymiad i barhau â’n hymdrechion i ddatblygu ein cynllun gweithlu a chefnogi cadernid ein tîm arweinyddiaeth. Mae lansio ein Harolwg Staff newydd wedi dangos bod staff a ymatebodd, yn gyffredinol, yn hapus a’u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod, eu cefnogi a’u gwerthfawrogi. Mae’n gyfnod o her na welwyd mo’i debyg o’r blaen. Mae angen i ni wella ein hymgysylltiad â staff a meithrin ffydd yn yr Arolwg er mwyn cynyddu cyfraddau ymateb y dyfodol, yn enwedig gan ein gwasanaethau rheng flaen.

## Y datgysylltiad: enw da yn erbyn perfformiad

Mae ffydd a bodlonrwydd o ran democratiaeth a gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol yn dirywio, ac nid yw hyn yn unigryw i’n Cyngor ni. Rydym wedi cael adborth gan fudd-ddeiliaid trwy ein Harolwg Budd-ddeiliaid sy’n dangos dirywiad o ran bodlonrwydd â’r Cyngor. Daw canlyniadau Arolwg Budd-ddeiliaid eleni ar adeg pan ddisgrifir ffydd y cyhoedd mewn llywodraeth ar bob lefel fel bod ar ei lefel isaf erioed ar draws y DU, yn ôl y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (2024). Yn ogystal, mae’r Archwilydd Cyffredinol (Archwilio Cymru, 2024*)* wedi disgrifio sefyllfa ariannol pob awdurdod lleol yng Nghymru fel bregus a sensitif. Y realiti yw fod awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych, yn cydbwyso pwysau ariannol sylweddol yn erbyn disgwyliadau eu cymunedau a gall hyn fod yn heriol. Un o’r rhesymau yw oherwydd bod y rhan fwyaf o’r pwysau mewn meysydd gwasanaeth nad yw’r cyhoedd yn eu cysylltu â darpariaeth llywodraeth leol o reidrwydd, fel addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Fel Cyngor, ein hymrwymiad yw ceisio’n gyson i wasanaethu pobl Sir Ddinbych hyd eithaf ein gallu. Rydym yn arloesi er mwyn gwella ein cyfathrebu gyda’n dinasyddion am yr holl waith cadarnhaol ydym ni’n ei wneud, ond mae’n dod yn fwyfwy anodd gwneud cynnydd o ran negeseuon cadarnhaol, wrth i gyfryngau cymdeithasol ymestyn. Dangosir hyn wrth i ni ystyried canlyniadau ein Harolwg Budd-ddeiliaid ochr yn ochr ag adborth gan ffynonellau budd-ddeiliaid eraill - fel adborth preswylwyr am wasanaethau penodol ydym ni’n eu darparu, ein Harolwg Staff, adroddiadau rheoleiddio a’r Asesiad Perfformiad Panel. Mae data o’r ffynonellau hyn yn

tueddu i fod yn fwy cadarnhaol, gan danlinellu'r heriau a ddisgrifir gan y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol a'r Ymchwilydd Cyffredinol.

Ein hadroddiad newydd Llais y Dinesydd yw ein hymdrech gyntaf wrth rannu'r ffynonellau tystiolaeth hyn. Mae'r angen am ymgysylltu a chyfathrebu yn thema gyson ar draws holl dystiolaeth Llais y Dinesydd. Rydym am wella ein dulliau cyfathrebu a'n perthnasoedd â'n cymunedau, fel a ddangosir gan y cynllun gweithredu rydym wedi'i roi ar waith yn dilyn yr Asesiad Perfformiad Panel a gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen Agosach at Gymunedau ar gyfer y Bwrdd Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad. Fel Cyngor, rydym yn ymrwymedig i ail-feithrin ffydd lle mae wedi'i golli, ac i rannu ein llwyddiannau a'n heriau'n fwy effeithiol. Bydd ein gwefan newyddion newydd yn helpu yn hyn o beth. Rydym eisoes yn meddwl am ein Cynllun Corfforaethol nesaf hefyd, a sut gallwn ni ymgysylltu'n well â phreswylwyr trwy ei ddatblygu yn ystod 2026 i 2027, fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u bod yn ymgysylltu'n well. Bydd ein hegwyddorion a'n gwerthoedd yn ein rhoi mewn sefyllfa dda.

## Rydym yn parhau i weithio tuag at safonau perfformiad uchel, ond mae'n dal i fod yn heriol bodloni disgwyliadau'r cyhoedd yng nghyd-destun argyfwng yr hinsawdd a natur, gweithlu sy'n heneiddio, a'r pwysau ariannol sy'n wynebu pob Cyngor

Yn gyffredinol, mae perfformiad ar draws dangosyddion a mesurau yn amrywio. Mewn rhai meysydd, rydym wedi gweld gwelliannau; mewn meysydd eraill - hyd yn oed pan ystyrir bod perfformiad yn Dderbyniol, Da neu Ragorol - mae'r perfformiad yn waeth na'r cyfnod blaenorol. Pan fo perfformiad eisoes yn Flaenoriaeth ar gyfer Gwella, mae perfformiad naill ai wedi aros yr un fath ac, mewn rhai achosion, wedi dirywio. Ar hyn o bryd, ystyrir bod 20% o'r holl fesurau yn y Cynllun Corfforaethol yn Flaenoriaeth ar gyfer Gwella. Er nad oes yr un o'n prosiectau neu weithgareddau yn dod o fewn y categori hwn, mae 7.2 y cant yn cael eu hystyried 'Mewn Perygl'. Mae'n anogol ein bod wedi gallu cynnal prosiectau a chynnal ein hymrwymiadau o ran y Cynllun Corfforaethol, er gwaethaf cyfyngiadau parhaus o ran adnoddau. Ond mae'r amrywioldeb o ran perfformiad yn adlewyrchu'r heriau sy'n gysylltiedig â rhedeg gwasanaethau cyhoeddus yng nghyd-destun yr hinsawdd bresennol.

Mae rhai o'r dangosyddion rydym ni'n eu monitro—megis mewn gwaith a thlodi plant[9]—yn parhau'n wael. Mae cysylltiadau rhwng cyrhaeddiad, presenoldeb a thlodi.[10] Rydym hefyd yn pryderu mai cyflogau merched yw 79% o'r cyflogau isaf[11] yn ein sefydliad ein hunain, er bod merched wedi'u cynrychioli'n dda ymhlith uwch reolwyr. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r materion economaidd heriol sy'n wynebu'r DU a thu hwnt, yn ogystal â'r angen i dargedu datblygu economaidd yn well tuag at ein cymunedau. Tra bod y rhain yn bennaf y tu hwnt i'n rheolaeth, maen nhw'n parhau'n ganolog i'n huchelgais o gyflawni ein [Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem]. Mae'n rhaid i ni barhau i ymdrechu i fod yn fwy hyblyg wrth adnabod a goresgyn rhwystrau i gynnydd a sicrhau ein bod yn aros yn wydn wrth i'n capasiti leihau.[12] Er enghraifft, mae rhai o'n camau gwelliant[13] yn cymryd hirach na'r disgwyl i gael eu darparu. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym ni'n adolygu ein Hadolygiad Cyfran a phrosesau perfformiad (yn cynnwys cyflwyno'r adroddiadau hyn) i gryfhau atebolrwydd ar gyfer darparu'r camau hyn. Nid ydym wedi nodi'n llawn beth mae effaith llai o gapasiti yn ei olygu ar gyfer ein hymrwymiadau o ran ansawdd na darpariaeth gwasanaeth eto. Ni ddylem osgoi hyn.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r adran hon yn egluro mewn rhagor o fanylder sut ydym wedi darparu ar ein hymrwymiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan ganolbwyntio ar beth aeth yn dda a lle'r ydym wedi wynebu heriau.

Er nad oedd unrhyw bryderon penodol wedi'u nodi yn yr Asesiad Perfformiad Panel, argymhellwyd ein bod yn adolygu effeithiolrwydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sydd wedi'i integreiddio yn ein Cynllun Corfforaethol. Mae'r adolygiad hwnnw wedi'i gynnal, ac rydym yn fodlon bod integreiddio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol i mewn i'n Cynllun Corfforaethol yn ffordd effeithiol o sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu prif ffrydio er mwyn bod yn gyfrifoldeb i bawb eu gwella. Mae hefyd yn sicrhau bod cydraddoldeb yn amlwg iawn mewn adroddiadau arwyddocaol fel hwn. Mae cydraddoldeb

---

[9] Mae'r Grŵp Strategol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen yn ystod haf 2025 i edrych ar ddangosyddion a llinynnau mesur tlodi plant.
[10] Mae ein Gwasanaethau Addysg yn gweithio'n agos ar draws y Cyngor, gyda phartneriaid ac aelodau etholedig i ddilyn dull 'un Cyngor' wrth wella cyrhaeddiad a phresenoldeb.
[11] Mae'n bwysig nodi bod 71% o chwartel uchaf cyflogau yn rhai merched.
[12] Mae cynllunio'r gweithlu a'n Strategaeth Pobl drafft newydd yn bwysig o ran y gweithlu a lles a chadernid unigol.
[13] Mae ein camau gwelliant wedi'u cyhoeddi ar hyn o bryd fel rhan o'n [hadroddiadau Diweddariad ar Berfformiad Cynllun Corfforaethol misol, sydd ar gael ar-lein].

yn ystyriaeth ganolog yn asesiad y Cyngor o'r effaith ar les hefyd. Mae ein Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol pwrpasol yn goruchwylio darpariaeth agweddau cydraddoldeb ar y cynllun integredig ac mae'n edrych ar ddulliau awdurdodau lleol eraill o rannu arfer a chyfnewid profiad. Er enghraifft, ym mis Ionawr eleni, croesawodd y Grŵp gydweithwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddysgu o'u gwaith gwrth-hiliaeth er mwyn gwireddu Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021 i 2026 (sydd â'r nod o sicrhau bod Cymru yn wrth-hiliol a gwrth-wahaniaethol yn gyfan gwbl erbyn 2030).

## Crynodeb o berfformiad yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb

Yn ei gyfarfodydd, mae'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol yn ystyried un adroddiad perfformiad ar gydraddoldeb ac amrywiaeth (sy'n gysylltiedig â'n Cynllun Corfforaethol) ac mae pob un o'n hamcanion cydraddoldeb wedi'u nodi yn y tablau isod. Mae'r rhain yn olrhain darpariaeth a llywodraethu o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae rhai yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein cymunedau o ran canlyniadau lles ac mae eraill yn ymwneud â'n gweithlu a'n diwylliant sefydliadol. Mae rhai uchafbwyntiau o ran ein Hamcanion Cydraddoldeb yn cynnwys:

- Mae canlyniadau digartrefedd wedi gwella ond mae ein perfformiad yn dal i fod yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Yn ystod y flwyddyn, profodd 18% o rai oedd yn gadael gofal ddigartrefedd (17 o 99 o bobl ifanc), ac fe ystyrir bod hyn yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella' hefyd.
- Rydym wedi gweld gostyngiad bach yn y cyfraddau a adroddwyd am achosion mynych o gam-drin domestig.
- Yn ystod y flwyddyn ariannol hon yn unig, rydym wedi gweld y galw am wasanaethau plant a gofal cymdeithasol i oedolion yn cynyddu o 14% o ran atgyfeiriadau ac ymholiadau a gofnodwyd ar ein Porth Cefnogi Plant a Theuluoedd, yn ogystal â nifer uwch o gysylltiadau â'r Un Pwynt Mynediad ac roedd mwy o ofalwyr sy'n oedolion wedi cael asesiad o angen yn ystod yr un cyfnod.[14]

[14] Yn ystod y flwyddyn ariannol hon yn unig, rydym wedi gweld y galw am wasanaethau plant a gofal cymdeithasol i oedolion yn cynyddu o 14% o ran atgyfeiriadau ac ymholiadau a gofnodwyd ar ein Porth Cefnogi Plant a Theuluoedd (nifer yr atgyfeiriadau ac ymholiadau yn ystod 2023 i 2024 oedd 5,056, gan gynyddu i 5,743 yn ystod 2024 i 2025) ac roedd mwy o ofalwyr sy'n oedolion wedi cael asesiad o angen yn ystod yr un cyfnod (o 370 i 447). Cynyddodd nifer y cysylltiadau â'r Un Pwynt Mynediad o 4,259 o gysylltiadau ym mis Mawrth 2024 i 4,773 ym mis Mawrth 2025 (cynnydd o 12%).

- Mae’r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy’n gymwys a rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau (ond mae wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf).
- Roedd y gyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion o waharddiadau am gyfnod penodol ar gyfer disgyblion Sir Ddinbych sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim yn 2023 i 2024 fwy na theirgwaith y ffigur ar gyfer disgyblion anghymwys.

Roedd 78% o staff a ymatebodd i’n Harolwg Staff yn teimlo bod Sir Ddinbych yn cefnogi cydraddoldeb yn y gweithle (roedd 5% yn anghytuno; roedd 15% yn niwtral, a dywedodd 2% nad oeddent yn gwybod).[15] Mae angen i ni barhau i brofi ein diwylliant er mwyn sicrhau nad yw arferion gwael neu wahaniaethol yn dod i mewn. Mae hyn yn berthnasol i’r Cyngor i gyd; i swyddogion ac aelodau etholedig. Mae gennym bolisi rhannu pryderon, rydym yn ceisio gwella cyfradd cwblhau cyfarfodydd un i un (er mwyn cynnwys diwylliant cadarnhaol a sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gweld a’u cefnogi) ac rydym yn edrych tu hwnt i’n sefydliad i ddysgu o brofiadau pobl eraill. Maes mae modd i ni edrych arno’n fanylach o bosibl, a dysgu ohono, yw profiadau staff ac aelodau etholedig sy’n lleiafrif yn eu maes gwasanaeth neu eu ward, boed hynny oherwydd hil, crefydd, rhyw neu nodwedd arall er enghraifft. Gallai hyn olygu merched sy’n gweithio mewn rolau ymarferol rheng flaen neu ddynion mewn gwasanaethau cymdeithasol.

O ran ein Hamcanion Cydraddoldeb sy’n ymwneud â diwylliant sefydliadol a pherfformiad:

- Cyflogau merched yw 79% o’r cyflogau isaf (chwarter isaf), sy’n adlewyrchu’r gyfran uwch o ferched sy’n gweithio i’r Cyngor, ac mae’r gyfran uwch o ferched sy’n gweithio mewn swyddi rhan-amser yn tueddu i fod yn rhai sy’n talu’n is.[16] Er bod ein diwylliant mewnol i’w weld yn iach, mae hyn yn bryder, a bydd y Bwrdd Cygor sy'n cael ei gynnal yn dda yn ystyried a oes angen camau gweithredu mwy bwriadol er mwyn cefnogi ein gweithlu benywaidd presennol a’r dyfodol i gael swyddi sy’n talu’n well.
- Daeth 12% o benodai newydd o geisiadau lle datgelwyd eu bod o grŵp hil neu grefyddol lleiafrifol, eu bod ag anabledd, yn hoyw neu’n ddeurywiol, neu eu bod wedi ailbennu eu rhywedd o’i gymharu â 16% o geisiadau lle na chafodd unrhyw

[15] Gofynnodd Bwrdd Cyngor sy’n cael ei gynnal yn dda i AD gynnal rhagor o waith ar ganlyniadau’r Arolwg Staff (yn cynnwys edrych ar ymatebion niwtral) i gynyddu ymgysylltu a’r gyfradd ymateb yn y dyfodol.
[16] Mae’n bwysig nodi bod 71% o chwartel uchaf cyflogau yn rhai merched.

nodweddion gwarchodedig eu datgelu.  Mae hwn yn fesur cymhleth, a gaiff ei drafod yn fanwl yn ein Hadroddiad Diweddariad ar Berfformiad Hydref 2024 i Mawrth 2025.

Mae gan y Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol rôl i archwilio a chyfrannu at Ddyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus ac adroddiadau Cyflog Rhywedd hefyd, sy'n ofynion statudol. Cyfrannodd y Grŵp at ddatblygu ymateb y Cyngor i Lywodraeth Cymru am fynd i'r afael â hiliaeth yn y gweithlu gofal cymdeithasol hefyd. Yn ystod y flwyddyn, cadarnhaodd y Grŵp ei rôl fel 'cyfaill beirniadol' o ran asesiadau effaith trwy drafod effaith gronnus cynigion y gyllideb; eu heffaith o safbwynt cydraddoldeb ac amrywiaeth, o ran effaith ar y gymuned ac effaith ar staff.  Bydd y Grŵp yn adolygu'r asesiad o effaith gronnus cynigion y gyllideb eto ym mis Mai 2025.

Mae gennym newyddion cadarnhaol i'w rannu o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.

- Mae Llyfrgell y Rhyl wedi ennill cystadleuaeth genedlaethol All Stories, sy'n darparu gweithdy ysgrifennu wedi'i gyllido, gan geisio annog a chefnogi darpar awduron o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli.  Yn dilyn llwyddiant y gystadleuaeth, caiff grŵp ysgrifennu ei sefydlu yn Llyfrgell y Rhyl.
- Cafodd Cyngor Sir Ddinbych ei gynnwys ar y rhestr fer genedlaethol ar gyfer Gwobrau Local Government Chronicle 2025 yn y categori Amrywiaeth a Chynhwysiant, ynghyd â naw awdurdod lleol arall, ar gyfer cynllun 'Leading with Pride: Belonging for Refugees and All' a chynllun Adsefydlu'r DU. Cynhelir y seremoni wobrwyo yn Llundain ym mis Mehefin.
- Ym mis Mawrth 2025, gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo a mabwysiadu'r Polisi Aflonyddu Rhywiol newydd a luniwyd yn unol â'r ddeddfwriaeth Cydraddoldeb newydd dan y Ddeddf Diogelu Gweithwyr (sy'n diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010), a ddaeth i rym ar 26 Hydref 2024.
- Mae ein Huwch Dim Arweinyddiaeth yn cynnwys saith merch a chwe dyn ac mae'n dangos amrywiaeth rhywedd ein Huwch Dîm Arweinyddiaeth.
- Un o'n cyflawniadau rydym fwyaf balch ohono eleni yw'r berthynas sydd wedi'i meithrin a'r ddeialog reolaidd a sefydlwyd rhwng ein Swyddog Cyswllt Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yma yn Sir Ddinbych - perthynas gref sy'n seiliedig ar ffydd a pharch y naill i'r llall.

**Astudiaeth achos: Stori Iryna, taith un gofalwr o Wcráin i Sir Ddinbych**

Dros y misoedd diwethaf, mae Gwasanaethau Gofal a Chymorth Sir Ddinbych wedi bod yn tynnu sylw at straeon ffoaduriaid o Wcráin sydd bellach yn gweithio yn y Gwasanaeth Gofal a Chymorth yn y Cyngor. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda chefnogaeth gan dîm bychan ac ymroddedig, mae lleoliadau profiad gwaith wedi cael eu cynnig ar draws y sir, gan olygu bod unigolion yn datblygu'r sgiliau a'r hyder sydd ei angen i ymgeisio am swyddi parhaol.

Un o'r bobl hynny sydd bellach yn gweithio yng Ngwasanaeth Gofal a Chymorth y Cyngor yw Iryna, a ddaeth i'r DU o Wcráin, gan ddianc rhag peryglon gwlad sydd mewn rhyfel. Ar ôl cyfnod o weithio mewn ffatri, cafodd ei chefnogi gan aelod o staff cymorth i ddod o hyd i brofiad gwaith â thâl am 6 wythnos mewn cyfleuster gofal ychwanegol yn y Rhyl. Ar ôl i'r lleoliad ddod i ben, bu Iryna yn llwyddiannus gyda'i chais, a chafodd gontract parhaol.

Wrth siarad am ei thaith, meddai Iryna: "Fe ddes i i'r DU yr ha' diwetha' gyda fy merch. Roedd hi'n anodd i ddechrau, gan nad oeddwn i'n gwybod beth i'w wneud a sut i fyw yma. Roedd y rhwystr iaith yn broblem fawr. Roedd yna gymorth gyda chyrsiau iaith yng Ngholeg y Rhyl, ac fe wnaeth hynny fywyd a chymdeithasu yn llawer haws. Y cam nesaf oedd dod o hyd i swydd. Gyda chymorth y tîm, ac ar ôl pasio'r holl wiriadau, fe ges i swydd mewn Cyfleuster Gofal yn y Rhyl. Dyma fy mhrofiad cyntaf o weithio gyda phobl hŷn ac rydw i wedi bod yn gweithio ers mwy na chwe mis, a dwi'n meddwl fy mod i'n llwyddo yn y swydd. Rydw i'n mwynhau'r profiad, mae'r amodau'n dda iawn i breswylwyr a gweithwyr ac mae'r tîm dwi'n gweithio gyda nhw yn hyfryd, a bob amser yn barod i helpu a rhoi cyngor i mi."

# Amcanion Perfformiad – Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027

## Perfformiad cyffredinol ar draws themâu'r Cynllun Corfforaethol

O ystyried yr heriau sy'n wynebu pob Cyngor yng Nghymru, mae'n gadarnhaol ein bod wedi gallu cynnal prosiectau a pharhau i ddarparu ar ymrwymiadau ein Cynllun Corfforaethol. Mae rhai canlyniadau'n dal i fod yn wael (tlodi mewn gwaith a thlodi plant, er enghraifft) gan adlewyrchu materion economaidd ehangach sy'n effeithio ar y DU a thu hwnt, yn ogystal â'r angen i dargedu datblygu economaidd yn well tuag at ein cymunedau. Mae'r tabl canlynol yn dangos bod perfformiad, yn gyffredin (ar lefel thema) wedi gwella neu aros yr un fath. Dylid nodi, lle mae perfformiad cyffredinol wedi'i nodi fel bod yr un fath, mae hyn mewn rhai achosion yn cynnwys agweddau ar berfformiad sy'n Flaenoriaeth ar gyfer Gwella a/neu â thuedd sy'n dirywio. Mae perfformiad ar draws pob un o'n dangosyddion a mesurau, fel a nodir uchod, yn amrywio. Mewn rhai achosion, mae perfformiad wedi gwella; mewn meysydd eraill - hyd yn oed pan ystyrir bod perfformiad yn Dderbyniol, Da neu Ragorol - mae'r perfformiad yn waeth na'r cyfnod blaenorol. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chyflwyno yn y tablau ar gyfer pob thema yn yr Hunanasesiad hwn ac mewn mwy o fanylder yn ein hadroddiad Diweddariad ar Berfformiad Cynllun Corfforaethol: Hydref 2024 i Mawrth 2025. Ar draws y Cynllun Corfforaethol cyfan, mae un rhan o bump (20 y cant) o'n mesurau yn Flaenoriaeth ar gyfer Gwella. Nid oes yr un o'n prosiectau neu weithgareddau wedi'u hystyried yn Flaenoriaeth ar gyfer Gwella, mae 7.2 y cant 'Mewn Perygl'.

| Thema'r Cynllun Corfforaethol | Statws Mesur[17] | Statws y Prosiect [18] |
|---|---|---|
| Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl | Derbyniol<br>Yr un fath | Ar y trywydd iawn<br>Gwell |
| Sir Ddinbych ffyniannus | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella<br>Yr un fath | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath |
| Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar | Da<br>Gwell | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath |
| Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu | Derbyniol | Profi Rhwystrau |

[17] Caiff statws mesurau eu nodi fel 'Rhagorol', 'Da', 'Derbyniol', 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella'.
[18] Caiff statws prosiectau a gweithgareddau eu nodi fel 'Ar y Trywydd Iawn', 'Profi Rhwystrau', 'Mewn Perygl' neu 'Dan Fygythiad'.

| | | |
|---|---|---|
| | Yr un fath | Yr un fath |
| Sir Ddinbych Wyrddach | Derbyniol<br>Yr un fath | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath |
| Cyngor sy’n cael ei gynnal yn dda, ac sy’n uchel ei berfformiad | Da<br>Gwell | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath |

## Meincnodi ein perfformiad yn erbyn eraill

Lle bo’n bosibl, rydym yn defnyddio gwybodaeth y mae modd ei chymharu’n genedlaethol i bennu’r pwynt y caiff perfformiad ei ystyried yn ‘Rhagorol’, neu’n ‘Flaenoriaeth ar gyfer Gwella’. Rydym yn egluro hyn mewn mwy o fanylder yn ein Hadroddiadau Diweddariad ar Berfformiad a gaiff eu cyhoeddi ar-lein. Er nad yw'n cynnwys popeth, mae’r adran hon yn darparu uchafbwyntiau o ran lle mae ein perfformiad yn cymharu’n ffafriol neu beidio; gan ddefnyddio gwybodaeth y mae modd ei chymharu’n genedlaethol a data arall a gyhoeddwyd gan gyrff eraill ar gyfer rhan olaf 2024 i 2025.

- Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru, Sir Ddinbych ydi’r ail uchaf yng ngogledd Cymru am y nifer o unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd fesul 10,000 o aelwydydd rhwng 2023 a 2024, ac mae ymysg y pump uchaf yng Nghymru gyfan.
- Mae rhai sy’n gadael ysgol ym Mlwyddyn 11 yn Sir Ddinbych nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant, sef 2.1%, yn is na chyfartaledd Cymru, sef 2.28%.
- Mae ffigurau a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn dangos mai gan Gyngor Sir Ddinbych y mae’r ail ffigur uchaf yng Nghymru am y gyfran o gerbydau heb allyriadau fel canran o’i fflyd, yn 19.2%.
- Ein cyfradd salwch, sef 9.2 diwrnod gwaith / shifftiau wedi’u colli fesul aelod o staff cyfwerth â llawn amser yw’r gyfradd absenoldebau isaf ond dau ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru.
- Mae’r sgôr 9 pwynt wedi’i gapio ar gyfer naw canlyniad gorau disgyblion Blwyddyn 11 o’r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru wedi gwaethygu i 330 ac mae’r sgôr 9 pwynt wedi’i gapio ar gyfer rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi aros yr un fath ar 276. Mae’r ddau fesur yn gymharol newydd ac mae perfformiad yn is na chyfartaledd Cymru yn y ddau achos (448 a 296 yn y drefn honno).
- Mae presenoldeb disgyblion rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion a gynhelir wedi gwella i 88.3% ond mae’n dal i fod yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru, sef 89%.

## Themâu’r Cynllun Corfforaethol

Mae’r adran hon yn egluro mewn rhagor o fanylder sut ydym wedi darparu ar ein hamcanion Cynllun Corfforaethol, gan ganolbwyntio ar beth aeth yn dda a lle’r ydym wedi wynebu heriau.

Yn dilyn penderfyniad yn yr Adolygiad Cyfran o’r Cynllun Corfforaethol[19] a gynhaliwyd ym mis Hydref 2024, rydym yn olrhain set lai o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y rhan fwyaf o themâu bellach. Mae'r rhan hon o’r adroddiad yn rhoi crynodeb o’r perfformiad diweddaraf. Mae’r data mesuriadau wedi’i fyrhau ac nid yw’n cynnwys cyfnod y data, sy’n cynnwys cymysgedd o ddata blynyddol a chwarterol, data diweddaraf ar gyfer y flwyddyn na’r pwynt data a gyhoeddwyd ddiwethaf ar gyfer, yn benodol, data cenedlaethol. Mae’r duedd yn cyfeirio at y pwynt data blaenorol (nid y flwyddyn flaenorol, er enghraifft). Mae tueddiadau a dadansoddiad manwl o’n perfformiad o ran ein Cynllun Corfforaethol i’w gweld yn ein Hadroddiadau Diweddariad ar Berfformiad.

### Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl

Mesurau Derbyniol
Prosiectau: Ar y trywydd iawn

Mae cwblhau tai newydd ym Mhrestatyn (Llys Llên) yn cyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i fynd i’r afael ag amseroedd aros ar gyfer llety drwy fynd i’r afael â’r angen am fwy o ddarpariaeth tai lleol. Mae Gorsaf Heddlu newydd hefyd wedi’i lleoli yn Llys Llên, gan ymateb i alwadau’r gymuned am safle ar gyfer swyddogion ymateb a’r Tîm Plismona Cymdogaeth ym Mhrestatyn. Mae gwaith yn parhau ar dai Cyngor Passivhaus yn Ninbych ac mae’r gwaith mewnol wedi dechrau yn y cyfnod yma, ac fe ddechreuodd gwaith ar wyth tŷ teras yn y Rhyl. Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru, Sir Ddinbych ydi’r ail uchaf yng ngogledd Cymru am y nifer o unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd fesul 10,000 o aelwydydd rhwng 2023 a 2024, ac mae ymysg y pump uchaf yng Nghymru gyfan. Yn 2024, darparwyd 154 o unedau tai fforddiadwy o fewn y Sir, sy’n gynnydd o 7.7% o gymharu â’r flwyddyn flaenorol ac roedd 79% o’r cartrefi hynny yn adeiladau newydd (147). Mae’r nifer o bobl ar y gofrestr Un Llwybr Mynediad at Dai wedi lleihau’n sylweddol

[19] Pwrpas Adolygiad Cyfran yw adolygu a gwerthuso perfformiad a darpariaeth, gyda chyfle i fyfyrio ac edrych ymlaen i ystyried cynnydd tuag at gyflawni’r uchelgeisiau a amlinellwyd yn ein Cynllun Corfforaethol. Cynhelir Adolygiadau Cyfran bob chwe mis a bydd aelodau’r Cabinet a’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu mynychu.

gyda gostyngiad o 26.22% yn sgil gwaith rhagweithiol cwblhau adolygiadau trylwyr o'r holl geisiadau. Serch hynny, mae'r galw am dai cymdeithasol wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf gan olygu bod y nifer o geisiadau sy'n aros i gael eu hasesu wedi cynyddu. Er bod gennym ni dal nifer sylweddol o aelwydydd mewn gwesty a lleoliadau gwely a brecwast (120), mae'r nifer wedi haneru yn sgil trawsnewid yn y gwasanaethau digartrefedd ac fe fabwysiadwyd ymagwedd 'Un Cyngor' i Ailgartrefu Cyflym. Er bod yr elfen hon yn dal i fod yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella', rydym wedi gweld gwelliant o ran canran yr aelwydydd a gafodd eu hatal rhag bod yn ddigartref, a gafodd eu hachub o ddigartrefedd ac y daethpwyd â'u digartrefedd i ben.

| **Mesurau** | **Perfformiad diweddaraf**<br>**[Data; Statws; Tuedd]** |
|---|---|
| Nifer y bobl ar restr aros ULlMaD (ceisiadau byw yn unig) – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 1,359<br>Da<br>Gwell |
| Nifer yr anheddau sydd wedi'u gwella gyda grant cyfleusterau i'r anabl - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol (Amcan Cydraddoldeb)** | 123<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (adran 66) **wedi'i feincnodi'n genedlaethol (Amcan Cydraddoldeb)** | 44.44%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hachub o ddigartrefedd (adran 73) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol (Amcan Cydraddoldeb)** | 16.81%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Canran yr aelwydydd a ryddhawyd yn gadarnhaol o ddigartrefedd (adran 75) **wedi'i feincnodi'n genedlaethol (Amcan Cydraddoldeb)** | 64.85%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Canran y bobl sy'n gadael gofal ac yn profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014) **wedi'i feincnodi'n lleol (Amcan Cydraddoldeb)** | 18%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Canran stoc dai presennol ac wedi'i gaffael gan y Cyngor sy'n cyflawni graddfa EPC (Ynni) C neu well - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 47%<br>Derbyniol<br>Gwell |

| Mesurau | Perfformiad diweddaraf<br>[Data; Statws; Tuedd] |
|---|---|
| Y cyflenwad ychwanegol o Dai Cyngor a ddarparwyd **wedi'i feincnodi'n lleol** | 15<br>Derbyniol<br>Gwaeth |
| Cyfanswm y tai (newydd) a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn Sir Ddinbych **wedi'i feincnodi'n lleol** | 147 |
| Y nifer o eiddo preifat gwag a gafodd eu defnyddio eto yn Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 269<br>Rhagorol<br>Gwell |

### Sir Ddinbych ffyniannus

Mesurau: Blaenoriaeth ar gyfer Gwella

Prosiectau: Profi Rhwystrau

Mae statws y llinynnau mesur ar gyfer y thema hon wedi cael ei chrynhoi fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Fodd bynnag, dylid nodi bod y rhain yn cynnwys dangosyddion cyffredinol a hirdymor megis y rhai o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Fel a nodir uchod, mae rhai o'r dangosyddion rydym ni'n eu monitro—megis mewn gwaith a thlodi plant[20]—yn parhau'n wael. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r materion economaidd heriol sy'n wynebu'r DU a thu hwnt, yn ogystal â'r angen i dargedu datblygu economaidd yn well tuag at ein cymunedau. Tra bod y rhain yn bennaf y tu hwnt i'n rheolaeth, maen nhw'n parhau'n ganolog i'n huchelgais o gyflawni ein Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem, ac felly maent yn parhau i gael eu cynnwys yn ein fframwaith perfformiad. Mae'r grant o £20 miliwn drwy'r Cynllun ar gyfer Cymdogaethau Llywodraeth y DU wedi galluogi sefydlu Bwrdd Tref y Rhyl i roi arweiniad ynglŷn â sut y dylid buddsoddi'r cyllid yn y deng mlynedd nesaf. Bydd y Bwrdd, sydd ar wahân i'r Cyngor ac yn gorfod cael Cadeirydd annibynnol, yn mynd ati yn 2025 i lunio gweledigaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf a chynllun cyflawni ar gyfer y tair blynedd gyntaf. Bydd y cyllid a'r gwaith yn dechrau yn ystod 2026-27, a bydd y buddsoddiad yn cyfrannu'n sylweddol at adfywio'r Rhyl. Cyfanswm nifer yr ymwelwyr â Sir Ddinbych yn 2023 oedd 6.39 miliwn, cynnydd o bron i

[20] Mae'r Grŵp Strategol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen yn ystod haf 2025 i edrych ar ddangosyddion a llinynnau mesur tlodi plant.

6% o'i gymharu â 2022. Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth oedd £736.05 miliwn, cynnydd sylweddol oedd i'w groesawu o 17.1% o'r flwyddyn flaenorol. Datblygiad allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod fydd Strategaeth Economaidd Sir Ddinbych, a fydd yn cael ei chyflwyno i gael ei chymeradwyo dros y misoedd nesaf. Fe waethygodd ein perfformiad mewn perthynas â chanran y ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed (CAT1 – Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen) i 32.7% ar ddiwedd mis Mawrth 2025. Mae mwy o fanylion am hyn yn yr adroddiad ac mae'n parhau i fod yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'.

| **Mesurau** | **Perfformiad diweddaraf**<br>**[Data; Statws; Tuedd]** |
| --- | --- |
| Canran y bobl oedran gweithio sy'n hawlio Budd-daliadau Di-waith - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 3.9%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Canran y gwariant gyda chyflenwyr o fewn Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 28.9%<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Canran gronnus o gontractau Sir Ddinbych dros £25,000 ac o dan £1 miliwn sy'n cynnwys buddion cymunedol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 100%<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Ar gyfartaledd, canran y ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi a wnaed yn ddiogel o fewn yr amser targed yn y flwyddyn hyd yma (CAT1 - diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 32.70%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Canran y plant mewn tlodi yn Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol (Amcan Cydraddoldeb)** | Aros am ddata |
| Cyflog gros blynyddol cyfartalog unigolion sy'n byw yn yr ardal ac yn gweithio'n llawn amser (£) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | Aros am ddata |
| STEAM - Cyfanswm Effaith Economaidd Twristiaeth (£ miliwn) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | £736.05<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Nifer y busnesau sy'n cael eu sefydlu fesul 10,000 o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 52<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Nifer y busnesau sy'n cau fesul 10,000 o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 54<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Canran yr eiddo yn Sir Ddinbych sy'n derbyn llai na 30Mbps - **Cyfrif yn Unig** | 2.7% |
| Canran yr eiddo yn Sir Ddinbych sy'n derbyn llai na 10Mbps - **Cyfrif yn Unig** | 2.1% |
| Canran yr eiddo yn Sir Ddinbych sydd â mynediad i ffibr llawn yn eu heiddo – **Cyfrif yn unig** | 83.4% |

**Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar**

Mesurau: Da

Prosiectau: Ar y trywydd iawn

Mae'r galw cynyddol am ofal cymdeithasol yn amlwg o'r nifer cynyddol o ymholiadau yn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion. Mae heriau staffio yn y Gwasanaethau Plant yn parhau i effeithio ar berfformiad mewn meysydd penodol, megis asesiadau newydd a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol. Mae timau felly'n blaenoriaethu amser a dreulir yn gweld plant a theuluoedd yn hytrach na sicrhau bod asesiadau'n cael eu recordio ar y system o fewn terfynau amser penodol. O ran cefnogi lles, mae mesuryddion perfformiad ar gyfer Llywiwr Cymunedol a Gwasanaethau Llyfrgell yn parhau i ddangos canlyniadau 'Rhagorol', ac mae mesurau ysgolion i gefnogi lles emosiynol yn 'Dderbyniol' ac yn gwella. Fe fu cynnydd sylweddol yn y nifer o grwpiau a gweithgareddau ymgysylltu i gefnogi lles a gwytnwch cymunedol. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi adrodd cynnydd cadarnhaol, ac fe fu gostyngiad bychan yn y cyfraddau o gam-drin domestig ailadroddus a lleoliadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol ailadroddus. Mae'r gyfradd aildroseddu o fewn cyfnod o ddwy flynedd i bobl ifanc yn bryder ar 59%, er mae'r ffigur yn is ar gyfer unigolion a gafodd Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys. Mae'r ganran o bobl ifanc yn Sir Ddinbych y mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi'u cyrraedd wedi gostwng ond mae dal yn cael ei ystyried yn 'Dda'.

| **Mesurau** | **Perfformiad diweddaraf**<br>**[Data; Statws; Tuedd]** |
|---|---|
| Canran yr asesiadau newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer plant o fewn yr amserlenni statudol - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 62%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant - **Cyfrif yn unig** | 64 |
| Nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Sir Ddinbych - **Cyfrif yn Unig** | 184 |
| Y nifer o blant a phobl ifanc sydd angen lleoliad ar hyn bryd ac nid oes lleoliad wedi'i sicrhau - **Cyfrif yn unig** | 8 |
| Canran yr ymholiadau diogelu gan oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith i dderbyn adroddiad am gamdriniaeth honedig - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 99%<br>Rhagorol<br>Yr un fath |

| **Mesurau** | **Perfformiad diweddaraf**<br>**[Data; Statws; Tuedd]** |
|---|---|
| Nifer y cysylltiadau gyda'r Un Pwynt Mynediad ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth - **Cyfrif yn Unig** | 4,773 |
| Canran y dinasyddion sy'n derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth gan Bwyntiau Siarad nad oedd angen cael eu hatgyfeirio at Ofal Cymdeithasol i Oedolion - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 94%<br>Rhagorol<br>Gwaeth |
| Canran yr ysgolion yn y sir sy'n defnyddio Dull Ysgol Gyfan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 69%<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Nifer y projectau neu grwpiau a gefnogwyd gan y Tîm Gwydnwch Cymunedol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 153<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Nifer cronnus o weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 76<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Nifer cronnus yr adroddiadau am bobl sydd wedi dioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro, gan gynnwys achosion nad oeddent yn droseddau (3 neu fwy mewn 12 mis) - **Cyfrif yn Unig (Amcan Cydraddoldeb)** | 449 |
| O'r pedwar maes blaenoriaeth yng nghynllun y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, y nifer sydd â statws COMG melyn neu wyrdd - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 4<br>Rhagorol<br>Yr un fath |
| Nifer o leoliadau gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol ailadroddus yn Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 53<br>Da<br>Gwaeth |
| Y ganran o bobl ifanc yn Sir Ddinbych a gefnogwyd gan y Gwasanaethau Ieuenctid - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 14%<br>Da<br>Gwaeth |
| Nifer y Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches ac yn derbyn gofal gan Sir Ddinbych - **Cyfrif yn unig** | 6 |
| Nifer yr atgyfeiriadau ac ymholiadau a gofnodwyd ar y Porth Cefnogi Plant a Theuluoedd - **Cyfrif yn Unig** | 5,743 |

| Mesurau | Perfformiad diweddaraf<br>[Data; Statws; Tuedd] |
|---|---|
| Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan ofalwyr sy'n oedolion trwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn, lle rhoddwyd cyngor neu gymorth - **Cyfrif yn Unig** | 1,123 |
| Cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr sy'n oedolion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn (cronnus) - **Cyfrif yn Unig (Amcan Cydraddoldeb)** | 447 |
| Nifer o bobl sy'n derbyn cefnogaeth ailalluogi gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion - **Blwyddyn Sylfaen** | 183 |
| Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu llyfrgell yn lle pleserus, diogel a chynhwysol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 93%<br>Rhagorol<br>Yr un fath |
| Y ganran sy'n ymuno â Sialens Ddarllen yr Haf yn y boblogaeth oedran cynradd (yn erbyn cyfartaledd Cymru a safle Cymru) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 13%<br>Derbyniol<br>Gwaeth |
| Y gwelliant cyfartalog yn sgôr craidd pobl ifanc ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 6%<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Amcangyfrif o nifer yr oriau gwirfoddoli yn cefnogi gweithgaredd gwytnwch a datblygu cymunedol (yn cynnwys gwirfoddoli Ar Ymyl Gofal a gwirfoddoli gyda'r Gwasanaeth Cefn Gwlad) - **Blwyddyn Sylfaen** | 24,962 |
| Y ganran o bobl ifanc Sir Ddinbych wnaeth aildroseddu o fewn cyfnod o ddwy flynedd ar ôl derbyn Datrysiad Llys - **Cyfrif yn unig** | 59% |
| Nifer cronnus y teuluoedd sydd wedi'u hadsefydlu yn Sir Ddinbych - **Cyfrif yn Unig (Amcan Cydraddoldeb)** | 70 |

### Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu

Mesurau: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

Allan o 55 ysgol, mae'r nifer y mae Estyn yn eu hystyried sy'n achosi pryder, yn dilyn arolwg, bellach wedi gostwng i dair. Mae data cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 o 2023 i 2024 wedi'i gategoreiddio fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella', gan ddisgyn o dan y cyfartaledd i Gymru. Mae data presenoldeb ysgolion yn disgyn o dan y cyfartaledd

cenedlaethol i Gymru, ond mae'n dangos cynnydd cadarnhaol yn ystod 2023 i 2024 o'i gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol. Mae canlyniadau o arolwg Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol yn dangos cynnydd yn y ganran o ddisgyblion sy'n ymateb yn gadarnhaol i deimladau am yr ysgol, i 84%. Mae'n galonogol gweld gwelliant yn nangosydd perfformiad y rhai sy'n gadael ysgol ym Mlwyddyn 11 yn Sir Ddinbych nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant - i 2.1%, sydd yn is na chyfartaledd Cymru. Mae oedi yn parhau wrth ddatblygu prosiectau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan olygu bod y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn parhau i fod 'Mewn Perygl'. Yn ystod y cyfnod yma, rydym wedi dechrau adrodd cyfraddau gwahardd cyfnod penodol fesul 1,000 o ddisgyblion. Mae'r data'n dangos bod y gyfradd ar gyfer disgyblion Sir Ddinbych sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn 415 yn 2023 i 2024, sydd yn fwy na theirgwaith y ffigur ar gyfer disgyblion anghymwys (126). Mae yna hefyd fwlch cyrhaeddiad gan fod disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ar gyfartaledd wedi cael pwyntiau arholiad Blwyddyn 11 is yn 2023 i 2024. Mae'r bwlch cyrhaeddiad wedi lleihau o'i gymharu â data'r flwyddyn flaenorol, gan ddynodi bod cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud. Mae'r nifer sydd yn derbyn Dechrau'n Deg, rhaglen sy'n darparu gwasanaethau gwell i deuluoedd sydd â phlant ifanc mewn ardaloedd difreintiedig o Gymru, yn 'Rhagorol'.

| **Mesurau** | **Perfformiad diweddaraf**<br>**[Data; Statws; Tuedd]** |
|---|---|
| Y ganran o rieni sy'n manteisio ar Deuluoedd yn Gyntaf sydd yn gallu cefnogi anghenion dysgu a datblygu eu plentyn yn well - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 100%<br>Rhagorol<br>Yr un fath |
| Y ganran sy'n manteisio ar gynigion gofal plant 12.5 awr Dechrau'n Deg a ariennir yn llawn (cyn geni - 4 mlwydd oed) - **wedi'i feincnodi'n lleol (Amcan Cydraddoldeb)** | 85%<br>Rhagorol<br>Gwaeth |
| Y ganran o ofalwyr plant sy'n manteisio ar ymyrraeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu wedi'i dargedu Dechrau'n Deg sy'n dangos gwelliant mewn hyder yn cefnogi datblygiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu - **wedi'i feincnodi'n lleol (Amcan Cydraddoldeb)** | 78%<br>Da<br>Yr un fath |
| Nifer y plant sy'n manteisio ar y cynnig gofal plant - **wedi'i feincnodi'n lleol (Amcan Cydraddoldeb)** | 781<br>Rhagorol<br>Gwell |

| **Mesurau** | **Perfformiad diweddaraf**<br>**[Data; Statws; Tuedd]** |
|---|---|
| Nifer yr ysgolion sydd naill ai dan Adolygiad Estyn, angen Gwelliant Sylweddol neu mewn Mesurau Arbennig - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 3<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Canran y disgyblion (yn defnyddio Agweddau Disgyblion atynt eu Hunain a'r Ysgol - PASS) sy'n ymateb yn gadarnhaol o ran eu teimladau am yr ysgol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 84%<br>Da<br>Gwell |
| Canran presenoldeb disgyblion 5-15 oed mewn ysgolion a gynhelir - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol** | 88.3%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Sgôr 9 pwynt wedi'i gapio[21] ar gyfer naw canlyniad gorau disgyblion Blwyddyn 11 o'r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 330.4<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Sgôr 9 pwynt wedi'i gapio o naw canlyniad gorau disgyblion Blwyddyn 11 (sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim) o'r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol (Amcan Cydraddoldeb)** | 276.2<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yr un fath |
| Canran y disgyblion dosbarth derbyn sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg - **Cyfrif yn Unig (Y Gymraeg a'i Diwylliant)** | 28.5% |
| Y ganran o ddysgwyr Blwyddyn 6 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n mynd i ffrwd Gymraeg yn unig mewn ysgol uwchradd – **Cyfrif yn unig (Y Gymraeg a'i Diwylliant)** | 85.3% |
| Nifer yr ysgolion sy'n darparu addysg drwy addasrwydd a chategorïau cyflwr C a D – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 28<br>Da<br>Gwaeth |
| Canran y Disgyblion sy'n Gadael Blwyddyn 11 mewn ysgolion, nad ydynt mewn Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant (NEET), ar y 31 Awst blaenorol yn Sir Ddinbych – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol (Amcan Cydraddoldeb)** | 2.1%<br>Derbyniol<br>Gwell |

[21] Mae'r sgôr 9 pwynt wedi'u capio yn llinyn mesur sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru sy'n adio naw canlyniad arholiad gorau disgybl, yn cynnwys pynciau penodol megis TGAU Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

| Mesurau | Perfformiad diweddaraf<br>[Data; Statws; Tuedd] |
|---|---|
| Canran y bobl sy’n gadael gofal yng nghategorïau 2, 3 a 4 sydd wedi bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth am o leiaf 3 mis yn olynol ers gadael gofal yn y flwyddyn gasglu - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 60%<br>Da<br>Gwaeth |
| Cyfradd gwaharddiadau ysgolion (cyfnod penodol) fesul 1,000 o ddisgyblion – **Blwyddyn Sylfaen** | 185 |
| Cyfradd gwaharddiadau ysgolion (cyfnod penodol) fesul 1,000 o ddisgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim – **Blwyddyn Sylfaen (Amcan Cydraddoldeb)** | 415 |
| Canran disgyblion ysgol sy’n cael eu hasesu eu bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim (Sir Ddinbych) – **Cyfrif yn unig (Amcan Cydraddoldeb)** | 22% |

### Sir Ddinbych Wyrddach

Mesurau: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

Mae lleihau allyriadau carbon yn her sylweddol i bob corff cyhoeddus. Mae nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu defnyddio i farnu perfformiad y Cyngor o ran cyflawni ei nodau o fod yn Ddi-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol ar gyfer 2030 gan gynnwys: lleihau’r allyriadau carbon mae’r Cyngor yn eu rhyddhau o ffynonellau amrywiol, cynyddu faint o garbon sy’n cael ei ddal a’i storio ar dir y mae’r Cyngor yn berchen arno, yn ei brydlesu ac yn ei reoli a chynyddu cyfoeth y rhywogaethau ar y tir y mae’r Cyngor yn berchen arno, yn ei brydlesu ac yn ei reoli. Fe fydd data blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2024 i 2025 ar gael ym mis Medi 2025. Mae ffigurau diweddar a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn dangos mai gan Gyngor Sir Ddinbych y mae’r ail ffigur uchaf yng Nghymru am y gyfran o gerbydau heb allyriadau fel canran o’i fflyd, yn 19.2%. Prosiect allweddol ar gyfer y thema hon yw’r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu newydd a lansiwyd i wella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff. Ar ôl cychwyn y rowndiau ailgylchu newydd ym mis Mehefin 2024, fe ddaeth hi’n amlwg yn gymharol fuan bod rhai o’r tybiaethau a ddefnyddiwyd i gynllunio’r rowndiau yn anghywir, gan arwain at nifer annerbyniol o gasgliadau’n cael eu methu. Roedd y misoedd dilynol yn eithriadol o anodd - fe fu swyddogion ar draws y Cyngor yn cefnogi’r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu i fynd yn ôl ar y trywydd iawn, ac oherwydd pwysau a chynnydd cyflym mewn galwadau i’r gwasanaeth i gwsmeriaid oedd yn ymwneud â’r gwasanaeth newydd. Roedd

yr aelodau etholedig hefyd dan bwysau wrth iddynt geisio gweithio gyda swyddogion a phreswylwyr oedd yn wynebu problemau i ddatrys casgliadau a gafodd eu methu.  Cafodd adnoddau ychwanegol eu dyrannu i'r gwasanaeth gan y Cabinet ym mis Hydref, ac mae hyn wedi cael ei archwilio ddwywaith gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Hydref 2024 a mis Chwefror 2025, a gofynnwyd am adroddiad pellach ym mis Mai. Ym mis Ionawr 2025 fe ystyriodd y Pwyllgor Craffu Perfformiad y trefniadau arfaethedig i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i gynnal adolygiad o gyflwyno'r drefn newydd.  Erbyn mis Chwefror 2025, fe wellodd prosiect Ailfodelu Gweithrediadau'r Gwasanaeth Gwastraff o fod 'Mewn Perygl' i 'Profi Rhwystrau', wrth i rowndiau newydd gael eu cyflwyno ac wrth barhau i fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys.  O ran enw da, mae'r problemau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r drefn newydd, wedi bod yn niweidiol i'r Cyngor, ac mae'n parhau i fod.

| **Mesurau** | **Perfformiad diweddaraf**<br>**[Data; Statws; Tuedd]** |
|---|---|
| Di-garbon Net - Cyfanswm y tunelli o garbon sy'n cael ei allyrru a'i amsugno gan y Cyngor (ac eithrio cadwyni cyflenwi) – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 12,653<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Canran y tir y mae CSDd yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau uchaf o ran cyfoeth rhywogaethau – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 42.50%<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru (Corfforaethol) oherwydd y fflyd – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 2,166<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru (Corfforaethol) oherwydd adeiladau – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 9,502<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru (Corfforaethol) oherwydd cadwyni cyflenwi– **wedi'i feincnodi'n lleol** | 50,233<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Canran y gwastraff trefol a gafodd ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 67.59%<br>Rhagorol<br>Gwell |

**Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad**

Mesurau: Da

Prosiectau: Profi Rhwystrau

Mae adolygu'r fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer y thema hon i mewn i set o linynnau mesur mwy cynnil a pherthnasol wedi'u meincnodi'n genedlaethol wedi golygu bod y statws wedi gwella o 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' i 'Da', sydd yn fwy cyson â'n hasesiadau ansoddol o'n llywodraethu a pherfformiad fel Cyngor ac yn unol ag adborth allanol gan, er enghraifft yr Asesiad Perfformiad Panel. Er gwaetha'r asesiad cyffredinol mwy cadarnhaol hwn, mae deuoliaeth rhwng beth mae staff, ein rheoleiddwyr a chyfoedion allanol yn ei feddwl am berfformiad a llywodraethu'r Cyngor a beth mae'r cyhoedd sy'n ymateb i'n Harolwg Budd-ddeiliaid (er enghraifft) yn ei feddwl. Yn dilyn yr heriau gyda chyflwyno'r drefn wastraff newydd a'i effaith ar gyswllt cwsmeriaid, mae hi'n bwysig ein bod ni'n dangos gwelliant yn y meysydd hyn ac yn ymateb i ddisgwyliadau ein cwsmeriaid. Rydym yn awyddus i adeiladu ar y canfyddiadau cadarnhaol a nodwyd yn y rhaglen 'Agosach at Gymunedau' ddiweddar, sy'n ceisio adeiladu perthnasoedd cryfach a mwy ymatebol â chymunedau.

| **Mesurau** | **Perfformiad diweddaraf**<br>**[Data; Statws; Tuedd]** |
|---|---|
| Amrywiant Cyllideb Corfforaethol a Gwasanaeth (£k) – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Disgwylir y data ganol fis Mehefin |
| Cyfartaledd treigl nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau a gollwyd fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth â llawn amser oherwydd absenoldeb salwch - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 9.2<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Canran y staff sy'n gymwys am un neu dri chyfarfod un i un ac sydd wedi cael o leiaf un neu dri chyfarfod un i un yn ystod y 12 mis diwethaf (fesul person) – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 74%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Canran y penodai newydd o geisiadau lle datgelwyd eu bod o grŵp hil neu grefyddol lleiafrifol, eu bod ag anabledd, yn hoyw neu'n ddeurywiol, neu eu bod wedi ailbennu eu rhywedd - **Cyfrif yn Unig (Amcan Cydraddoldeb)** | 12% |
| Canran y cyflogau isaf a delir (chwarter isaf) sy'n ferched – **wedi'i feincnodi'n lleol (Amcan Cydraddoldeb)** | 79%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |

| Mesurau | Perfformiad diweddaraf<br>[Data; Statws; Tuedd] |
|---|---|
| Nifer y cwynion a gafwyd gan yr Ombwdsmon fesul 1,000 o breswylwyr – **Wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 0.32<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Canran y staff sy'n dweud eu bod yn gwybod bod gan y Cyngor bump egwyddor a phedwar gwerth – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 80.5%<br>Rhagorol |
| Canran y staff sy'n dweud bod y Cyngor yn cefnogi ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle – **wedi'i feincnodi'n lleol (Y Gymraeg a'i Diwylliant)** | 84%<br>Rhagorol |
| Y ganran o staff sy'n dweud eu bod yn falch i weithio i Gyngor Sir Ddinbych – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 69%<br>Derbyniol |